Ôl-ddyledion cynhaliaeth plant

Efallai bod gennych gyfrifoldeb ariannol dros blentyn neu gynbartner nad ydych bellach yn byw ganddo/ganddi. Os yw hyn yn wir yn eich achos chi, efallai yr ydych yn talu mewn un o nifer o wahanol ffyrdd. Efallai eich bod yn talu:

- arian i'r plentyn neu gynbartner yn wirfoddol. Gelwir hyn yn gynhaliaeth wirfoddol
- arian i blentyn neu gynbartner a orchmynnwyd gan y llys. Gelwir hyn yn gynhaliaeth
- arian ar gyfer plentyn i'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA). Gelwir hyn yn Gynhaliaeth Plant.

Os ydych yn mynd i ddyled gyda'r taliadau hyn, mae'r canlyniadau yn dibynnu ar sut yr ydych yn talu.

Os ydych yn mynd i ddyled gyda chynhaliaeth wirfoddol, gallai eich partner gymryd camau yn eich erbyn yn y llys.

Os ydych yn mynd i ddyled gyda'ch taliadau Cynhaliaeth Plant a orchmynnwyd gan y llys, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn. Felly mae'n hynod o bwysig eich bod yn mynd i'r afael â'r dyledion hyn cyn eich dyledion eraill megis dyledion cerdyn credyd neu gatalog, benthyciadau neu orddrafftiau.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthych yr hyn allai ddigwydd os ydych yn mynd i ddyled gyda'ch taliadau Cynhaliaeth Plant a orchmynnwyd gan y llys.

Ôl-ddyledion Cynhaliaeth Plant

Os yw eich amgylchiadau ariannol yn newid ac rydych yn meddwl na allwch barhau i dalu eich taliadau Cynhaliaeth Plant, neu rydych yn meddwl nad ydynt bellach yn rhesymol, dylech gysylltu â'r Asiantaeth Cynnal Plant cyn gynted â phosibl. Gofynnwch iddynt ail-gyfrifo faint y dylech dalu ac anfonwch gopi o'ch taflen gyllido atynt er mwyn dangos eich amgylchiadau ariannol.

Os ydych yn mynd i ddyled, gallwch gysylltu â'r Asiantaeth Cynnal Plant i geisio dod i gytundeb ynglŷn â sut byddwch yn talu'r ôl-ddyledion. Os nad ydych yn gwneud hyn, byddant yn cysylltu â chi. Mae'n annhebygol iawn y byddant yn dileu eich ôl-ddyledion, hyd yn oed os ydych yn datgan eich hun yn fethdalwr. Mae'n rhaid iddynt ddilyn canllawiau sy'n dweud bod yn rhaid iddynt fod yn rhesymol pan ydych yn ceisio dod i drefniant. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu llythyrau'r Asiantaeth Cynnal Plant. Mynnwch gyngor ar unwaith os nad ydych yn gwybod sut i ymateb.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych yn cadw at y trefniant, gall yr Asiantaeth Cynnal Plant:

- orchymyn bod taliadau yn cael eu cymryd o'ch cyfrif banc
- orchymyn eich cyflogwr i **dynnu arian o'ch cyflog**. Bydd yr arian hwn yn mynd tuag at dalu cynhaliaeth gyfredol ac ôl-ddyledion, neu
- orchymyn bod taliadau yn cael eu cymryd yn syth o'ch **budd-daliadau**, neu
- wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn llys o'r enw **gorchymyn atebolrwydd.**

Cewch hyd i fwy o wybodaeth am sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn ymdrin ag achosion o beidio â thalu ar wefan Directgov: www.direct.gov.uk.

Unwaith bod ganddynt orchymyn atebolrwydd, gall yr Asiantaeth Cynnal Plant:

- anfon **beilïaid** i'ch cartref a chymryd eich eiddo a fydd yn cael ei werthu er mwyn talu eich ôl-ddyledion
- wneud cais i'r llys sirol am fwy o rym i'ch gorfodi i dalu – er enghraifft, gallent gymryd arian yn syth o'ch cyfrif banc er mwyn talu'r ôl-ddyledion. Gelwir hyn yn **orchymyn dyled trydydd parti**. Neu gallant gael gorchymyn a allai arwain at werthu eich cartref er mwyn talu'r ôl-ddyledion. Gelwir hyn yn **orchymyn talu**.

Os nad yw'r Asiantaeth Cynnal Plant yn gallu adfer yr arian sydd arnoch, gallant wneud cais i'r llys am orchymyn llys arall a allai **eich anfon i'r carchar** neu eich gwahardd rhag gyrru. Byddai hyn dim ond yn digwydd os ydych wedi gwrthod talu neu'n esgeuluso talu a chithau'n gallu gwneud hynny.

Os yw'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi ceisio am orchymyn atebolrwydd yn eich erbyn, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Cynhaliaeth a orchmynnwyd gan y llys

Roedd yn rhaid i'r llys ystyried eich incwm a'ch treuliau pan oedd yn penderfynu eich taliadau cynhaliaeth yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'n bosib bod eich amgylchiadau wedi newid. Er enghraifft, efallai eich bod yn sâl neu wedi colli eich swydd, neu mewn perthynas gyda rhywun arall a bod gennych fwy o blant. Os yw eich amgylchiadau yn newid a ni allwch fforddio'r taliadau a orchmynnwyd gan y llys, gallwch wneud cais i'r un llys i newid (**amrywio**) y gorchymyn. Dylech anfon gopi o'ch taflen gyllido gyda'ch cais er mwyn newid y gorchymyn. Codir tâl am hyn ond mae modd ei leihau neu ei hepgor os ydych ar incwm isel.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych yn mynd i ddyled, gall y llys eich gorchymyn i fynychu gwrandawiad llys o'r enw **gwrandawiad ymchwiliad modd**. Byddant yn edrych ar eich amgylchiadau ariannol a chymryd un o'r camau canlynol yn dibynnu ar eich amgylchiadau:

- **dileu'r** ôl-ddyledion, os ydynt yn fodlon bod gennych resymau da dros fynd i ddyled a ni allwch fforddio'r taliadau
- eich gorchymyn i dalu'r ôl-ddyledion drwy **ddebyd uniongyrchol** neu **archeb sefydlog**
- anfon **beilïaid** i'ch cartref a chymryd eich eiddo. Byddant yn cael eu gwerthu i dalu eich ôl-ddyledion
- gorchymyn ein cyflogwr i **dynnu arian o'ch cyflog**.

Os cewch eich gorchymyn i fynychu **gwrandawiad ymchwiliad modd**, mynnwch gyngor.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Delio â phobl yr ydych mewn dyled iddynt
- Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn cael eich cymryd i'r llys am eich dyledion
- Samplau o lythyrau sy'n ymwneud â dyled
- Beilïaid

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 14 Tachwedd 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr